# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Hendy**

**Heol y Parc**
**Hendy**
**Abertawe**
**SA4 0XX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Tŷ Hendy

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Consensus Support Services Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 17 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 5 Rhagfyr 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb


Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gadarnhaol am y gwasanaeth. Dywedodd unigolyn sy'n byw yn Nhŷ Hendy wrthym, *"The home is perfect and the best place I have ever lived*". Dywedodd aelod o deulu wrthym, *"This place is first class and it's been so good for him".* Mae'r gweithwyr cymorth cyfeillgar ac amyneddgar wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'u personoli'n llawn ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i arwain y gweithwyr cymorth.

Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda gan y darparwr. Eir i'r afael â phroblemau gyda'r adeilad yn gyflym ac mae cynllun diweddaru ar waith. Mae'r ystafelloedd unigol wedi'u personoli'n llawn ac maent yn cyfleu'r unigolion sy'n byw ynddynt. Mae offer a chyfarpar cyfathrebu hygyrch ar gael er mwyn i'r bobl gynnal eu hannibyniaeth.

Caiff y gwasanaeth ei arwain yn effeithiol gan reolwr cefnogol sy'n hawdd mynd ati, sy'n adnabod y bobl ac yn eu deall yn dda. Mae'r darparwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda iawn drwy systemau sicrhau ansawdd sy'n canolbwyntio ar welliant parhaus.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth wedi'u teilwra'n bersonol atynt. Mae'r unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth yn cael llawer o wahanol gyfleoedd sy'n gwella eu llesiant. Mae'r gweithwyr cymorth yn annog y bobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt yn y gwasanaeth, yn eu cymuned leol a thu hwnt. Mae'r rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol arbenigol er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Caiff y bobl, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr cymorth eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu'r cynlluniau personol.

Mae'r bobl yn cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a chânt eu cefnogi i weithio tuag at eu nodau unigol. Mae'r staff cymorth yn parchu'r bobl, yn deall eu hanghenion ac yn cymryd amser i feithrin cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd. Dywedodd cynrychiolydd wrthym, "*My family member is genuinely cared about by the staff and carers. They look for activities they can support him in doing and provide a safe and positive environment".* Gall y bobl gyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg fel y mynnant, ac mae'r gwasanaeth yn defnyddio dulliau hygyrch i gyfathrebu â'r bobl.

Mae'r adeilad mewn cyflwr da ac wedi'i ddylunio i gefnogi'r bobl i fod mor ddiogel ac annibynnol â phosibl. Gall y bobl wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt yn y gwasanaeth fel rhyngweithio â'i gilydd, gwrando ar gerddoriaeth, chwarae gemau cyfrifiadurol, ymlacio a choginio eu prydau eu hunain. Mae'r darparwr yn ystyried sefyllfaoedd personol pob person ac yn addasu eu hystafelloedd unigol i hybu eu llesiant.

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed gan fod y prosesau recriwtio a hyfforddi yn sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir. Mae'r gweithwyr yn cael hyfforddiant sefydlu cynhwysfawr a chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus, ac maent yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r staff yn diogelu'r bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon.

Mae gan y bobl lais am fod yr Unigolyn Cyfrifol yn treulio amser yn siarad â'r bobl am y gwasanaeth yn rheolaidd. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn adroddiad gyda chynllun gweithredu clir a chaiff ei defnyddio i lywio'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth a gânt gan staff medrus ac angerddol sy'n eu deall nhw, eu hanghenion a'u dewisiadau. Dywedodd un unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth, *“They are brilliant and support me to be busy with all my different activities”.* Mae'r cynrychiolwyr yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth a'r cydberthnasau y mae'r bobl wedi'u meithrin gyda'u gweithwyr cymorth; *“They are absolutely wonderful, they have supported him to do things that we never thought he could do”*. Gwelsom lawer o ryngweithio pwyllog, cyfeillgar ac amyneddgar yn ystod yr arolygiad. Wrth drafod y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, dywedodd y gweithwyr wrthym, *“They are all individual and I love them”* a *“They are lovely, it’s like family*”.

Mae’r bobl, eu cynrychiolwyr, y gweithwyr cymorth a'r gweithwyr proffesiynol cysylltiedig yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu eu cynlluniau personol. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod y cynlluniau yn gywir a chyfredol, gyda chanllawiau ar y ffordd orau o gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau unigol. Wrth adolygu'r cynlluniau personol, mae'r rheolwr yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth gan yr unigolyn, ei gynrychiolwyr, y gweithwyr cymorth, adroddiadau'r gweithwyr allweddol yn ogystal â'r gweithwyr proffesiynol allanol. Mae asesiadau risg cadarnhaol yn helpu i gynnal diogelwch ac yn annog y bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys ac mae eu cyngor yn cael ei adlewyrchu yn y cynlluniau. Mae'r gweithwyr allweddol yn cynnal cyfarfodydd adolygu misol gyda'r bobl i'w helpu i asesu, adolygu ac addasu'r nodau y maent yn gweithio tuag atynt. Wrth drafod y cynlluniau personol, dywedodd gweithiwr cymorth wrthym, *“It’s really good that I can make suggestions and they are frequently updated”.*

Mae'r rheolwr a'r uwch-staff yn archwilio'r feddyginiaeth pob mis i sicrhau y caiff ei weinyddu a'i reoli'n briodol. Mae'r fferyllfa leol hefyd yn cynnal archwiliad blynyddol gyda chynllun gweithredu i ddatrys unrhyw broblemau a nodir.

Mae'r bobl yn mwynhau ymgymryd ag amrywiaeth o ddiddordebau sy'n unol â'u dewisiadau unigol. Mae'r bobl yn cael gwneud pethau yn y gwasanaeth megis gweithio yn y dderbynfa, coginio, chwarae gemau cyfrifiadurol, ymgymryd â gweithgareddau wedi'u trefnu a gofalu am eu hanifeiliaid anwes. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allanol megis cofrestru ag addysg, mynd ar leoliadau i wirfoddoli, ymaelodi â grwpiau cymunedol lleol yn ogystal â mynd ar wyliau.

Mae'r rheolwr yn sicrhau bod y nifer o weithwyr cymorth sydd ar gael yn diwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Lle y bo angen, maent yn defnyddio staff asiantaeth sy'n gyfarwydd â'r cartref a'r bobl y maent yn eu cefnogi.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n eu cefnogi yn unol â'u hanghenion unigol. Mae'r darparwr yn gweithio gyda'r bobl i addasu'r ystafelloedd byw i'w helpu i ddatblygu eu hannibyniaeth ac i gyflawni eu nodau eu hunain. Er enghraifft, maent wedi creu ardaloedd ychwanegol ar gyfer y bobl gael ymlacio ynddynt, ac maent wrthi'n datblygu fflat newydd er mwyn galluogi unigolyn reoli llety ei hun. Mae'r darparwr hefyd wedi adnewyddu un o'r ardaloedd byw cymunedol, wedi gosod cegin newydd ac yn bwriadu gwneud gwaith atgyweirio pellach i'r décor.

Mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd drwy ddewis cynlluniau lliw, dodrefn, ffotograffau, ornamentau a thechnoleg eu hunain. Mae cyfarpar ar gael er mwyn helpu'r bobl sydd â phroblemau symudedd ac mae'r adnoddau cyfathrebu cynhwysol yn annog y bobl i gynnal eu hannibyniaeth. Mae'r bobl yn mwynhau treulio amser yn y gerddi yn edrych ar ôl eu hanifeiliaid anwes, yn cael barbeciws, ac yn ymlacio yn yr ardaloedd patio.

Mae gan y darparwr systemau cadarn ar waith i sicrhau y caiff archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd o'r eiddo eu cwblhau. Mae'r staff yn cwblhau'r profion gofynnol ar y cyfarpar diogelwch tân. Caiff archwiliadau iechyd a diogelwch eu cwblhau gan yr uwch-staff drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng yn gyfredol ac ar gael mewn argyfwng.

Mae tair cegin yn y gwasanaeth ac mae'r staff yn annog y bobl i wneud cymaint drostynt eu hunain â phosibl wrth goginio. Mae'r bobl yn gweithio gyda'i gilydd a gyda'r gweithwyr cymorth i gynllunio prydau bwyd, i siopa ar eu cyfer ac i'w coginio â'i gilydd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau cryf ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r darparwr wedi cyflwyno system sicrhau ansawdd newydd gydag archwiliadau rheolaidd a chynlluniau gweithredu er mwyn ymdrin ag unrhyw faterion. Mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn adnabod yr Unigolyn Cyfrifol yn dda iawn. Mae adroddiadau ymweliadau chwarterol statudol yr Unigolyn Cyfrifol yn gynhwysfawr ac yn cynnwys y bobl a/neu eu cynrychiolwyr a'r staff. Dywedodd gweithiwr cymorth wrthym, *"The RI always stops and talks to ask how things are for the guys".* Caiff gwybodaeth o'r archwiliadau ansawdd rhain a'r adborth gan y bobl, eu cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol eu defnyddio yn yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis.

Mae gan y rheolwr systemau effeithiol iawn ar waith i sicrhau bod dogfennaeth yn ddefnyddiol, yn effeithiol, yn gyfredol ac yn dathlu cyflawniadau'r bobl. Dywedwyd bod y rheolwr yn hygyrch ac yn cefnogi pawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth. Dywedodd person sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym, *"[Manager] has been brilliant to me, she's the best, so supportive".* Wrth drafod y rheolwr, dywedodd y gweithwyr cymorth wrthym *"She's brilliant, really supportive"* a *"She has turned things around and improved things so much, it's ten times better for the guys"* a *"I love working with her".*

Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un yn rheolaidd yn ogystal ag arfarniadau'n flynyddol. Dywedodd weithiwr cymorth wrthym, *"Supervisions are good but I get great support from the manager and deputy, whenever I need it".* Mae gan y gweithwyr cymorth ddealltwriaeth dda ynghylch diogelu ac maent yn hyderus i roi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o'r polisïau a'r gweithdrefnau allweddol sy'n arwain eu hymarfer.

Caiff gwiriadau cyn cyflogi megis geirdaon, hawl i weithio a'r gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu cynnal cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae staff newydd yn cael hyfforddiant sefydlu cynhwysfawr. Mae hyfforddiant gorfodol parhaus a hyfforddiant sy'n benodol i'r unigolyn yn helpu'r gweithwyr cymorth i ddiwallu anghenion unigol y bobl yn effeithiol. Dywedodd weithiwr cymorth wrthym, "The sign language training has been brilliant to help us to communicate better with people". Mae'r rheolwr yn helpu'r gweithwyr cymorth i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn hybu sgiliau pellach drwy gymwysterau proffesiynol.

Mae'r rheolwr yn sicrhau bod nifer digonol o staff ar gael i ddiwallu anghenion unigol y bobl, gan gynnwys gweithwyr asiantaeth pan fo angen. Mae system gweithwyr allweddol yn helpu'r bobl i feithrin cydberthnasau cadarnhaol â'u gweithwyr cymorth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 15 | Ni wnaeth y darparwr baratoi cynllun personol ar gyfer person a dderbyniwyd i'r gwasanaeth o fewn 24 awr i ddechrau gofal. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/02/2024